## Trosolwg

Mae a wnelo'r safon hon â rheoli'r lleoliad gwaith chwarae ac â'r prosesau sydd ynghlwm â sicrhau fod man chwarae yn lle iach a diogel i chwarae ynddo.

**Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:**

1. rheoli'r lleoliad gwaith chwarae
2. rheoli a chynnal a chadw'r adnoddau sy'n rhan o'r lleoliad gwaith chwarae
3. goruchwylio'r gwaith o ofalu am iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith chwarae

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr chwarae sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliad gwaith chwarae ac sy'n gyfrifol yn bennaf am roi cyfleoedd i blant chwarae fel maen nhw'n dewis ac yn dymuno ei wneud. Mae'r safon ar gyfer staff sydd â pheth cyfrifoldeb dros y lleoliad gwaith chwarae ac eraill, ac sy'n gwneud cyfraniad allweddol i gefnogi chwarae.

**Mae'r safon hon yn ategu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae angen i weithwyr chwarae fod yn gyfarwydd â'r rhain, a lle bo'n bosib, eu defnyddio wrth eu gwaith ac wrth adlewyrchu. **

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Rheoli'r lleoliad gwaith chwarae**

1. cynnig darpariaeth chwarae yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
2. arwain **eraill** i sefydlu a chynnal a chadw'r lleoliad gwaith chwarae mewn modd sy'n cwrdd ag anghenion chwarae'r plant a'r bobl ifanc
3. bod yn gyfrifol am reoli risg drwy:
   3.1 cefnogi staff wrth iddyn nhw gynnal asesiadau risg-manteision
   3.2 goruchwylio'r gwaith o gofnodi a chwblhau asesiadau risg-manteision
   3.3. gwirio fod y chwarae'n cael ei arsylwi yn y lleoliad gwaith chwarae
4. gwirio fod staff yn adlewyrchu ac yn arsylwi er mwyn gwella eu gwaith chwarae
5. hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth yn eich sefydliad
6. adnabod y pethau sy'n **rhwystro pobl rhag cymryd rhan** a gweithio gydag **eraill** i'w goresgyn neu eu lleihau
7. hyrwyddo'r lleoliad gwaith chwarae i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr a allai ei chael hi'n anodd cymryd rhan
8. cadw cofnodion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
9. darparu **gwybodaeth** i bobl ac asiantaethau awdurdodedig yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
10. rheoli pwy sy'n cael dod i'r lleoliad gwaith chwarae yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
11. cyfyngu ar bwy sy'n medru gweld **gwybodaeth** yn unol â'r cytundebau cyfrinachedd a'r hyn sy'n ofynnol gan y gyfraith a'ch sefydliad
12. cefnogi plant a phobl ifanc i newid ac addasu'r man chwarae

**Rheoli a chynnal yr adnoddau yn y lleoliad gwaith chwarae**

1. darparu adnoddau y mae modd i bob plentyn a pherson ifanc eu defnyddio
2. sicrhau fod staff yn gwirio'r safle yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
3. sicrhau fod staff yn gwirio fod y mannau dan do ac awyr agored yn ddiogel cyn, yn ystod ac ar ôl y gweithgareddau.
4. trefnu, gwirio ac adrodd yn ôl fod gwaith cynnal yn cael ei gwblhau fel bo angen
5. addasu'r lleoliad gwaith chwarae yn rheolaidd i gwrdd ag anghenion yr holl blant a phobl ifanc

**Goruchwylio’r gwaith o ofalu am iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith chwarae**

1. bod yn gyfrifol am iechyd a diogelwch plant a phobl ifanc yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol
2. cadw cofnodion ynglŷn â’r gofynion iechyd a diogelwch sy’n berthnasol i’ch lleoliad gwaith chwarae yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol
3. sicrhau bod manylion gan bob plentyn, person ifanc ac oedolyn sy’n defnyddio’r lleoliad ynghylch y gweithdrefnau iechyd a diogelwch
4. sicrhau fod **pobl eraill** yn dilyn y gweithdrefnau iechyd a diogelwch
5. goruchwylio plant a phobl ifanc, gan ystyried lefel y risg ynghyd ag anghenion, dymuniadau a lefel eu datblygiad
6. annog plant a phobl ifanc i reoli risg drostyn nhw eu hunain ac i fod yn ymwybodol o’u diogelwch nhw eu hun ac o ddiogelwch **pobl eraill**
7. adolygu a diwygio gweithdrefnau iechyd a diogelwch eich sefydliad
8. rhoi gweithdrefnau ar waith i ymdrin â damweiniau, anafiadau, salwch ac achosion eraill o **argyfwng**

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Rheoli'r lleoliad gwaith chwarae**

1. yr Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n rhan o fframwaith proffesiynol a moesegol gwaith chwarae a sut mae modd cymhwyso pob un o'r egwyddorion i'ch gwaith chi
2. sut i gynnig darpariaeth chwarae yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol
3. sut i gefnogi **eraill** i sefydlu a chynnal y lleoliad gwaith chwarae i gwrdd ag anghenion chwarae plant a phobl ifanc
4. eich cyfrifoldebau o ran rheoli risg
5. y gwahaniaeth rhwng asesiadau risg ffurfiol ac asesiadau risg-manteision dynamig
6. ffyrdd o gefnogi staff i gynnal ac adlewyrchu ar asesiadau risg-manteision dynamig
7. damcaniaethau a modelau o asesiadau risg sy'n berthnasol i'r lleoliad gwaith chwarae a'r plant, y bobl ifanc ac **eraill** sy'n ei ddefnyddio, boed hynny o dan do, yn yr awyr agored neu yn ymweliad
8. sut i fonitro'r gwaith o gwblhau asesiadau risg-manteision
9. pwysigrwydd sicrhau bod rhywun yn arsylwi'r chwarae yn y lleoliad gwaith chwarae
10. pwysigrwydd sicrhau eich bod yn adlewyrchu ar y gwaith arsylwi er mwyn gwella'r gwaith chwarae
11. modelau ac arferion da presennol sy'n ymwneud â chynhwysiant
12. y modelau cymdeithasol a meddygol o anabledd a'r gwahaniaethau rhyngddyn nhw
13. sut i adnabod a goresgyn yr elfennau hynny sy'n **rhwystro poblrhag cymryd rhan** yn y lleoliad gwaith chwarae
14. sut i hyrwyddo'r lleoliad gwaith chwarae i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr sydd o bosib yn ei chael hi'n anodd cymryd rhan
15. beth ydy darpariaeth chwarae gynhwysol a beth yw gwerth y math yma o ddarpariaeth o'i chymharu â darpariaeth chwarae 'ar wahân', 'neilltuol,' a / neu 'integredig.'
16. sut i gadw cofnodion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
17. pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad o ran darparu **gwybodaeth** i bobl ac

asiantaethau awdurdodedig

18. y mathau o wybodaeth y gellir bod angen eu trosglwyddo i bobl awdurdodedig yn y sefydliad
19. pam ei bod hi'n bwysig cadw cofnodion yn gyflawn, yn eglur ac yn gyfoes
20. pwysigrwydd storio cofnodion yn gyfrinachol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol
21. ffyrdd o gefnogi plant a phobl ifanc i addasu a newid y man chwarae
22. y mathau o gefnogaeth y gellir fod ei hangen ar blant a phobl ifanc i wneud y defnydd gorau o'r lleoliad gwaith chwarae
23. ffyrdd o feithrin diwylliant lle mae modd i'r staff, y plant a'r bobl ifanc fod yn rhan o greu mannau chwarae newydd, cyfoethocach yn y lleoliad gwaith chwarae

**Rheoli a chynnal a chadw adnoddau'r lleoliad gwaith chwarae**

1. ffyrdd o wneud yn siŵr fod adnoddau ar gael y gall pob plentyn a pherson ifanc eu defnyddio
2. ffyrdd o sicrhau fod y lleoliad gwaith chwarae yn hygyrch a chynhwysol
3. **cynnal gwiriadau diogelwch** y tu mewn a thu allan, cyn, yn ystod ac ar ôl y gweithgareddau
4. polisïau a gweithdrefnau'ch sefydliad o ran gwirio'r safle
5. polisïau a gweithdrefnau'ch sefydliad o ran monitro a chynnal offer
6. pwysigrwydd sicrhau fod y lleoliad gwaith chwarae yn cefnogi lles pob plentyn a pherson ifanc
7. sut i sicrhau fod staff yn creu mannau chwarae gyda'r plant
8. yr angen i sicrhau y gallwch chi gynnig y cyfleoedd chwarae y gofynnir amdanyn nhw

**Goruchwylio'r gwaith o ofalu am iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith chwarae**

1. sut i ysgwyddo cyfrifoldeb a monitro'r polisïau a'r gweithdrefnau statudol, rheoleiddiol a sefydliadol sy'n ymwneud â sicrhau iechyd a diogelwch, plant, pobl ifanc ac **eraill** yn eich lleoliad gwaith chwarae
2. cytundebau cyfrinachedd gyda rhieni a gofalwyr
3. pwysigrwydd fod pob plentyn, person ifanc ac oedolyn sy'n defnyddio'r lleoliad gwaith chwarae yn gwybod am y gweithdrefnau iechyd a diogelwch
4. anghenion, dymuniadau a lefel datblygiad plant a phobl ifanc a goblygiadau'r rhain ar drefniadau iechyd a diogelwch, gallu plant a

phobl ifanc i reoli risg drostyn nhw eu hunain a bod yn ymwybodol
o'u diogelwch nhw eu hunain a diogelwch **pobl eraill**
5. sut i roi gweithdrefnau ar waith ar gyfer damweiniau, anafiadau,
salwch ac achosion eraill o argyfwng, yn unol â pholisïau a
gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol
6. y polisïau a'r gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol o ran storio a dosbarthu
meddyginiaethau
7. y polisïau a'r gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol o ran codi a chario a'r
peryglon sy'n gysylltiedig â gwneud hynny
8. cynnwys blwch cymorth cyntaf
9. **arferion hylendid da** i osgoi'r risg o draws heintio
10. arwyddion a symptomau afiechydon ac alergeddau sy'n gyffredin ymhlith plant
a pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad o ran sut i ymateb
11. polisïau a gweithdrefnau **argyfwng** eich sefydliad

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Eraill**

1. staff
2. ymwelwyr
3. rhieni a / neu ofalwyr

**Rhwystrau rhag cymryd rhan**

1. agwedd
2. yr amgylchedd
3. y sefydliad

**Gwybodaeth** *(lleiafswm o 4 allan o 6)*

1. cefndir
2. anghenion dietegol
3. alergeddau
4. gofynion gofal personol
5. trefniadau cyrraedd a gadael
6. cofnodion y sefydliad

**Gwirio diogelwch** *(PC15)*

1. cyfleusterau ac offer
2. tai bach a'r mannau ymolchi
3. sut mae'r plant a'r bobl ifanc yn symud ac yn chwarae

**Achosion o argyfwng**

1. tân
2. plant ar goll
3. gadael y safle

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

**Eraill**

1. staff
2. ymwelwyr
3. rhieni a gofalwyr

**Rhwystrau rhag cymryd rhan**

1. agwedd
2. yr amgylchedd
3. y sefydliad

**Gwybodaeth**

1. cefndir
2. anghenion dietegol
3. alergeddau
4. gofynion gofal personol
5. trefniadau cyrraedd a gadael
6. cofnodion y sefydliad

**Gwirio diogelwch**

1. cyfleusterau ac offer
2. tai bach a'r mannau ymolchi
3. sut mae'r plant a'r bobl ifanc yn symud ac yn chwarae

**Arferion hylendid da**

1. systemau priodol i gael gwared ar wahanol fathau o wastraff
2. trin hylifau corfforol
3. afiechydon heintus a rhai sy'n trosglwyddo yn y gwaed

**Achosion o argyfwng**

1. tân
2. plant ar goll
3. gadael y safle

## Gwerthoedd

Mae'r Gweithwyr Chwarae oedd yn rhan o ysgrifennu'r safon hon, law yn llaw â SkillsActive, wedi cytuno i fabwysiadu'r canlynol fel y gwerthoedd fydd yn berthnasol i bawb sy'n gweithio yn y sector gwaith chwarae.

**Egwyddorion Gwaith Chwarae**

Mae'r Egwyddorion hyn yn sefydlu fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac mae angen felly eu hystyried yn eu cyfanrwydd. Maen nhw'n disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac yn rhoi sylw i weithio gyda phlant a phobl ifanc o safbwynt gwaith chwarae. Mae'r safonau yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth y bydd modd i blant a phobl ifanc ddatblygu'n well os cawn nhw'r dewis ehangaf posib o gyfleoedd chware a mannau i chwarae ynddyn nhw.

1.
Mae angen i bob plentyn a pherson ifanc chwarae. Mae chwarae yn rhywbeth greddfol a chynhenid. Mae chwarae yn anghenraid biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i les a datblygiad pobl a chymunedau.

2.
Mae chwarae yn broses wirfoddol, bersonol ac yn cael ei wneud er ei fwyn ei hun. Hynny ydy, mae plant a phobl ifanc yn penderfynu ac yn siapio beth a pham maen nhw'n chwarae, drwy ddilyn eu cyneddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.

3.
Prif amcan a hanfod gwaith chwarae ydy cefnogi a hwyluso'r broses o chwarae. Dylai hyn ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau, strategaethau, hyfforddiant ac addysg yn ymwneud â chwarae.

4.
Y broses chwarae sydd bwysicaf i weithwyr chwarae, ac maen nhw'n eiriol dros chwarae wrth ymwneud â sefyllfaoedd sy'n edrych ar bethau drwy lygaid oedolion.

5.
Swyddogaeth y gweithiwr chwarae ydy cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu man lle mae modd iddyn nhw chwarae.

6.
Mae ymateb gweithwyr chwarae i'r ffordd mae plant a phobl ifanc yn chwarae yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn a chyfoes o'r broses chwarae, ac o adlewyrchu ar eu profiadau eu hunain.

7.
Mae gweithwyr chwarae yn adnabod yr effaith maen nhw'n ei chael ar y lle chwarae a hefyd yr effaith mae chwarae'r plant a'r bobl ifanc yn ei gael ar y gweithiwr chwarae.
8.
Mae gweithwyr chwarae yn dewis ymyrryd mewn ffordd sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc ehangu eu chwarae.  Pob tro mae gweithiwr chwarae yn ymyrryd, rhaid iddo gydbwyso'r perygl o wneud hynny gyda'r fantais i les a datblygiad y plant.

Caiff yr Egwyddorion Gwaith Chwarae eu dal mewn ymddiriedaeth gan y Grŵp Craffu ar gyfer Proffesiwn Gwaith Chwarae y Deyrnas Gyfunol. Bu'r Grŵp Craffu yn gweithredu fel canolwr di-duedd ac yn goruchwylio'r broses ymgynghori lle cafodd y safonau eu llunio.

## Geirfa

**Darpariaeth chwarae gynhwysol**
Darpariaeth sydd ar gael ac yn hwylus i bawb, ac sy'n gwneud ymdrech i gael gwared ar rwystrau, fel bod modd i bob plentyn a pherson ifanc gymryd rhan

**Anghenion chwarae**
Yr hyn sydd ei angen ar bob plentyn a pherson ifanc er mwyn gallu chwarae, ond na allan nhw o hyd eu cael am amryw o resymau, er enghraifft, diffyg mynegid, oedolion gor-amddifynnol, diffyg mannau awyr agored ac ati

**Darpariaeth chwarae**
Mannau wedi  eu creu gan oedolion lle mae modd i blant a phobl ifanc chwarae

**Man chwarae**
Man chwarae sy'n cael ei ffurfio gan blant a phobl ifanc. Mae modd iddo fod yn faterol, yn ymwneud â theimladau neu emosiynau, fod yn barhaol, dros dro neu yn ymwneud â'r byd seibr

**Lleoliad gwaith chwarae**
Rhywle lle mae cyfle i blant a phobl ifanc chwarae a lle mae gweithwyr chwarae yn gweithio

**Darpariaeth chwarae neilltuedig**
Neilltuo plant a phobl ifanc anabl, yn seiliedig ar farn gweithiwr proffesiynol ynghylch nam neu 'wahaniaeth'.  Mae gan weithwyr

proffesiynol nad ydyn nhw'n anabl reolaeth lwyr

**Darpariaeth chwarae ar wahân**
Grwpiau o blant a phobl ifanc anabl sy'n dewis cyfarfod a datblygu eu hagenda eu hunain, yn debyg i grwpiau lleiafrifol eraill

**Staff**
Y bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw, y bobl rydych chi'n gyfrifol amdanyn nhw, gweithwyr cyflog neu wirfoddol, myfyrwyr neu o dan hyfforddiant

# Rhedeg y lleoliad gwaith chwarae

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | SkillsActive |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2016 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | SkillsActive |
| **RCU gwreiddiol** | Newydd |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Iechyd, Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus, Lles a Datblygiad Plentyn, Gweithwyr Proffesiynol y meysydd hyn a phobl mewn swyddi technolegol, Gweithwyr Chwaraeon a Ffitrwydd |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Chwarae |
| **Geiriau Allweddol** | gwaith chwarae, chwarae yn ôl dewis a dymuniad; lleoliad gwaith chwarae; plant a phobl ifanc |